# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD EBRILL 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 21ain o Ebrill, 2021** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Huw Rowlands.<br>Yn bresennol roedd Aeron M Jones, Michelle Williams, Gwilym Thomas, Jason Hunt, Gillian Wynne Thomas (Clerc). |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elin Evans, Nerys Evans, Peter Roberts, Gwilym Williams, Bryn Hughes, Rhodri Dwyfor, a Tom Ellis. |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad ar gyfer y noson. |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION MAWRTH 2021 A MATERION YN CODI** |
| | Cynigwyd cywirdeb cofnodion Mawrth gan GT gyda MW yn eilio, cytunodd pawb. |
| 5. | **MATERION MISOL** |
| | **a) <u>TENDRAU</u>**<br>Cyflwynwyd penderfyniad Pwyllgor Polisi a Chyllid I gynnig cytundeb am flwyddyn I Ifan Williams am dorri gwair Mynwent Cefnfaes ar gost o £1,500 y flwyddyn am saith toriad. Ychwanegodd y clerc bod Ifan yn dymuno derbyn un taliad ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>**b) <u>RHODDION</u>**<br><br>Cyflwynwyd penderfyniad Pwyllgor Polisi a Chyllid ddyrannu'r rhoddion canlynol gan y Cyngor fel y canlyn:<br><br>£600 – Ysgol Gynradd Rhosgadfan<br>£150 – Papur Bro Lleu<br>£100 – Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri<br>£100 - Tŷ Gobaith<br>£250 - Clwb Pêl droed Mountain Rangers<br><br>Ychwanegodd y clerc bod y Pwyllgor wedi cytuno derbyn ceisiadau ychwanegol eto yn fis Hydref. Cytunodd yr aelodau gyda'r penderfyniadau- Y clerc i weithredu taliadau. |

Llofnodwyd gan ........................................................................ Dyddiad ..................................................................

*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

c) **LLWYBR BRYN GWYN**

Penderfynwyd yng nghyfarfod mis Mawrth bydd yr aelodau yn cerdded y llwybr ym mis Mai a chysoni'r gwaith sydd ei angen. Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth ers y cyfarfod ym mis Mawrth bod y Cyngor eisoes wedi cytuno ac wedi derbyn amcan bris i gyflawni'r gwaith yn Nhryfan Junction gan Wyn Williams ond nid oedd y gwaith wedi ei gyflawni gan fod peiriannau Griffiths yn rhwystro mynediad iddo i'r safle. Y clerc i gysylltu â Mr. Williams a gofyn iddo ddisgwyl tan fod yr aelodau wedi cysoni'r holl waith sydd angen.

d) **CWYN GAN ELWYN JONES AM LWYBR**

Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cwyn gan Mr. Jones yn esbonio ei fod yn cael ei gyhuddo am rwystro mynediad i lwybr ger Foty Tŷ Newydd. Esboniodd iddi dderbyn gwybodaeth bellach mae cymydog iddo sydd ar fai ac wedi gosod cerrig mawr fel rhwystr i giât mochyn. Y clerc I adrodd am y broblem I'r Cyngor Sir.

e) **GT - TWMPATHAU CYFLYMDER YN Y WARD**

Adroddodd GT bod twmpathau ger yr Ysgol yn Rhosgadfan mewn cyflwr difrifol, y clerc i adrodd y gwyn i Gyngor Gwynedd.

f) **GT - CAIS CYNLLUNIO TAI DINAS – ADRODDIAD**

Rhannwyd pryderon pellach gan GT bod mynedfa terfynol y safle yn parhau i gael eu nodi yn yr adroddiad i ddod allan ar lon Rhosisaf yn hytrach nac i'r lon fawr drwy hen fynedfa'r Mount er gwaethaf bod mynedfa'r Mount yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Y Clerc I anfon y sylwadau ymlaen i'r Adran Gynllunio.

g) **AMJ – GWYN ROBERTS - TYRCHOD DEAR YNG NGHEFNFAES**

Eglurodd y Clerc ei bod wedi derbyn cwyn ychwanegol gyda gwybodaeth am unigolyn i ddifa pla gan Mr. Roberts. Ychwanegodd GT ei fod ynta hefyd wedi derbyn cwyn ychwanegol. Y clerc i gynnig prisiau i'r Pwyllgor Cyllid gytuno ar y ffodd orau ymlaen.

h) **NE - LLWYBR WAUNBANT**

Adroddodd NE bryderon am gyflwr y llwybr ym mis Mawrth ac fe'u gyrrwyd ymlaen i'r Cyngor Sir. Derbyniwyd ymateb nad yw'r llwybr wedi ei gofrestru fel hawl tramwy swyddogol felly nid oes gan y Cyngor Sir bwerau i ddatrys problemau arno.

Esboniodd NE yng nghyfarfod Ebrill ei bod wedi cysylltu nôl gyda map yn arddangos y llwybr yn glir ac yn gofyn sut ei fod wedi ei ddileu ers hyn ac wedi derbyn ymateb mai'n debygol mae camgymeriad gweinyddol sydd ar fai. Gofynnwyd I'r clerc yrru sylwadau pellach ymlaen sef:

1. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn teimlo fod camgymeriad ar bapur yn dileu llwybr , yn enwedig llwybr sydd yn cael ei ddefnyddio.
2. Hoffem dynnu eich sylw at gais cynllunio a gafodd ei drafod gan Gyngor Gwynedd yn 2014 – cais cynllunio C14/0566/24/LL - Ymestyn lled y fynedfa amaethyddol bresennol, Waen Bant, Rhostryfan. Caniatawyd y cais gyda 3 amod

"**Amod 3 – Rhaid diogelu llwybr cyhoeddus rhif 127 9LLanwnda) a sicrhau bod mynediad yn cael ei warchod yn ystod ac ar ôl y datblygiad."**

A fydd modd i chi esbonio sut mae un adran o'r Cyngor yn cydnabod bodolaeth llwybr cyhoeddus tra bod adran arall ddim?

Derbyniwyd yr eglurhad canlynol:

*i) Ni chafodd y llwybr troed a drafodwyd erioed ei gofrestru ar Fap Swyddogol y Cyngor. Mae ychydig o dystiolaeth yn dangos bod llwybr troed / trac yn bresennol o'r mapiau a ddangoswyd imi, ond nid yw'n hawl tramwy. Gall y llwybr troed ar fap a ddangoswyd i mi awgrymu bod gwall a wnaed yn ôl yn 1900 pan wnaed y map a'r datganiadau swyddogol i'w greu, allai fod wedi arwain at beidio byth â chofrestru'r llwybr troed hwn. Os oedd hwn yn wall neu beidio nid oes gennym dystiolaeth oherwydd gwnaed hyn flynyddoedd maith yn ôl. Mae hyn yn golygu na chofrestrwyd y llwybr troed erioed fel hawl tramwy. Dyma un o'r prif resymau pam ein bod yn derbyn ceisiadau am Orchymyn Addasu Map Swyddogol.*

| | |
|---|---|
| | *Fel diweddariad o'ch cais i gofrestru'r llwybr troed hwn, rydym wedi gwneud argymhelliad i gofrestru'r llwybr troed hwn fel hawl tramwy. Ar hyn o bryd rydym yn paratoi'r Gorchymyn. Ei effaith - os caiff ei gadarnhau - fydd cofrestru'r llwybr ar ein Map Swyddogol. Ar ôl paratoi'r Gorchymyn bydd rhybudd yn ymddangos yn y wasg yn gwahodd aelodau'r cyhoedd i ddarparu sylwadau ynghylch yr hawl tramwy honedig o fewn cyfnod o 6 wythnos.*<br><br>*j) O ran y cais cynllunio, mae'r llwybr troed honedig yr ydym yn ei drafod yn gyfagos i hawl tramwy cyhoeddus 127. Cadarnhaf nad yw'r llwybr troed honedig a'r hawl tramwy cyhoeddus 127 yr un llwybr (Gweler y cynllun yn dangos PROW 127 mewn llinellau porffor wedi'u chwalu).*<br><br>Cytunwyd i gadw'r mater ar y rhaglen erbyn mis nesaf.<br><br>**k) <u>ARWYDD DIM YSMYGU I'R CAEAU CHWARAE</u>**<br><br>Rhannodd y clerc bris am ddau arwydd gan gwmni o Benygroes, awgrymodd MW bydd angen fixings hefyd, nodwyd ar sail hyn bydd y pris oddeutu £2 yn ddrytach - y Clerc I drefnu eu archebu..<br><br>**l) <u>LLWYBR YSGOL RHOSTRYFAN – DIWEDDARIAD - CAIS CYNLLUNIO</u>**<br><br>Derbyniwyd y wybodaeth ganlynol gan Nia Parry:<br><br>• Gwaith torri coed ar y llwybr bellach wedi ei wneud a bod Eric wedi cytuno i baratoi'r cais cynllunio. Nodwyd bydd angen llythyr o gefnogaeth gan y bwrdd llywodraethol a derbyniwyd cais am lythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned.<br><br>• Bydd rhaid trafod ymhellach union fan gosod y giatiau, hefyd a oes angen 'retaining wall'.<br><br>• Bydd rhaid i'r Cyngor Sir ail gychwyn y broses o greu adroddiad newydd a set newydd o argymhellion gan fod yr aelodau staff ddaeth i archwilio'r safle yn 2016 bellach wedi gadael eu swyddi.<br><br>Cytunodd yr aelodau gefnogi'r cais cynllunio mewn egwyddor.<br><br>Eglurodd y clerc bod HR wedi ymateb i gais ar fyrder gan Nia Parry am nodyn gan y Cyngor yn caniatáu Cwmni Griffiths adael y maes parcio wedi ei ymestyn o'r maint gwreiddiol.<br>Adroddodd JH nad oedd Cwmni Griffiths wedi ail osod ffens y bowndri ac esboniodd bod hyn yn bwysig i osgoi marchogaeth a beics ar y llwybr llechi. Gan fod cwmni Griffiths bellach wedi cwblhau'r gwaith ac wedi gadael y safle y clerc i yrru sylwadau ymlaen I Swyddogion Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am snagging list y gwaith.<br><br>**m) <u>BINIAU BAW CI – LON LAS</u>**<br><br>Adroddodd y clerc bod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod bin baw ci ble mae'r Lon Las yn croesi'r lôn i lawr o Gapel Glan Rhyd.<br><br>**n) <u>SAFLE BWS Y FFINGAR</u>**<br><br>Esboniodd y clerc bod ychydig o gamddealltwriaeth wedi bod gyda'r sawl sydd yn cyflawni'r gwaith a mwy na thebyg nid oedd cynnydd mewn safleoedd wedi cael ei esbonio yn glir iddo er gwaethaf iddo gytuno i'r cynnydd yn gontract 2018 am 10 safle bws. Y clerc I gysylltu ac esbonio lleoliad y 10 safle yn glir iddo.<br><br>**o) <u>ADRODDIAD ARCHWILIO LLIFOGYDD - LÔN BETWS, RHOSTRYFAN</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau |
| 6. | **DERBYN ADRODDIADAU** |
| | Gweler 5 o) |

| 7. | **MATERION CYNLLUNIO** |
|---|---|

a) **RHIF CAIS/APP REF: C21/0360/24/DT - 3, STÂD CAEAU UCHAF, RHOSGADFAN, CAERNARFON, LL54 7HR**
Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad - Y clerc i ddiweddaru'r Adran Gynllunio

b) **RHIF CAIS/APP REF: C21/0171/24/DT - BRONANT, RHOS ISAF, CAERNARFON, LL54 7NF**
Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad - Y clerc i ddiweddaru'r Adran Gynllunio

c) **RHIF CAIS/APP REF: C21/0267/24/LL - TIR GER / LAND BY GERLAN, RHOSTRYFAN, CAERNARFON, LL54 7NL**
Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad - Y clerc i ddiweddaru'r Adran Gynllunio

| 8. | **MATERION ARIANNOL** |
|---|---|

Eglurodd y Clerc ei bod bellach wedi llwyddo trefnu derbyn y datganiadau banc yn rheolaidd.
Yng nghyfarfod Mawrth cofnodwyd bod **£ 51,131.49** yn y banc. Gan nad oedd y clerc wedi derbyn datganiadau bryd hynny nid oedd y ffigwr hwn yn cynnwys y derbyniadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Claddedigaeth | **120.00** |
| Llogau Banc | **1.28** |
| Claddedigaeth | **500.00** |
| Claddedigaeth | **500.00** |
| Llwybrau Cyngor Gwynedd | **821.08** |
| | **1,942.36** |

Balans terfynol Mawrth felly oedd
**£ 51,131.49**
**+ £1,942.36**
**=£53,073.85**

a) **ADRODDIAD ARIANNOL hyd at 14.04.21**

**Cyfrif Cyfredol -** £8,901.60
-£324.90 Swyddfa Archwilio Cymru
Balans Cau **= £8,576.70**

**Cyfrif Cadw** - £44.497.15

Balans y ddau gyfrif = **£53.073.85**

b) **TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | Rhif Siec | Swm |
|---|---|---|---|
| 21.04.21 | Gwalch | 101613 | £ 354.00 |
| 21.04.21 | C. W. Jones | 101614 | £ 117.00 |
| 21.04.21 | G. W. Thomas | 101615 | £ 575.00 |
| 21.04.21 | Ysgol Gynradd Rhosgadfan | 101616 | £ 600.00 |
| 21.04.21 | Papur Bro Lleu | 101617 | £ 150.00 |
| 21.04.21 | Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri | 101618 | £ 100.00 |
| 21.04.21 | Tŷ Gobaith | 101619 | £ 100.00 |
| 21.04.21 | Clwb Pêl Droed Mountain Rangers | 101620 | £ 250.00 |
| | | | **£ 2,246.00** |

| 9. | <u>**GOHEBIAETH A CHYLCHGRONAU**</u> |
|---|---|
| | **a) BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod<br><br>**b) ALAN HUGHES – LLWYBR LLECHI**<br>Nodwyd bod Mr. Hughes wedi cynnig gwirfoddoli rhoi cymorth i unrhyw waith sydd angen ei gyflawni ar y llwybr.<br><br>**c) NIA PARRI - DIWEDDARIAD LLWYBR YSGOL RHOSTRYFAN**<br>Gweler 5 i)<br><br>**d) AMCAN BRIS ARWYDDION DIM YSMYGU**<br>Gweler 5 k)<br><br>**e) DIGWYDDIAD AR Y CYD RHWNG UN LLAIS CYMRU / SLCC – 13 MAI 2021**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfod.<br><br>**f) CATRIN DAVIES – YMATEB LLWYBR WAUNBANT**<br>Gweler 5 h). |
| 10. | <u>**MATERION CYFARFOD NESAF**</u> |
| | **a)** <u>**JH - Culvert wedi Rhwystro**</u><br>Esboniodd JH bod dau gulvert wedi rhwystro gyferbyn Carreg Lwyd Rhostryfan a Bryn Carrog Rhostryfan - Y Clerc I adrodd am y pryderon i'r Cyngor Sir..<br><br>b) <u>**JH - Pont Bro Gilbert**</u><br>Cais gan JH I lythyru gyda'r Cyngor Sir I ofyn am bosibilrwydd gosod bolard yn fynedfa'r bont i arbed ceir rhag mynd drosti.<br>Y clerc i weithredu<br><br>**DYDDIAD:** 19 o Fai, 2021<br>**LLEOLIAD:** **Ar lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |